Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Plas y Don

Cartref Preswyl Plas y Don
Bro Heli
Pwllheli
LL53 5BD

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

13 Ebrill 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.
Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Phlas y Don

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb nyrsio
Darparwr cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd
Lleoedd cofrestredig	28
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn hapus. Maent yn cael eu cefnogi i gadw'n iach a gwneud penderfyniadau ynghylch sut y dymunant fyw eu bywydau. Mae perthnasau cadarnhaol yn cael eu ffurfio rhwng y preswylwyr a'r staff gofal. Mae'r bobl yn canmol y gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt ac yn teimlo y gallant godi unrhyw faterion gyda'r rheolwr. Darperir gofal yn ddwyieithog a hyrwyddir y Gymraeg a diwylliant Cymreig yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth gynllunio'u gofal ac mae cynlluniau personol yn adlewyrchu'r dewisiadau a ffefrir ganddynt. Mae angen gwella pa mor fanwl yw cynlluniau personol y bobl pan maent yn cyrraedd y gwasanaeth am y tro cyntaf. Mae'r staff gofal mwynhau gweithio yn y gwasanaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel, ond mae rhywfaint o hyfforddiant gloywi heb ei gwblhau ar hyn o bryd.

Llesiant

Mae'r bobl yn hapus, yn teimlo'n gartrefol ac mae ganddynt gydberthnasau da ag eraill. Mae’r bobl yn dod yn ffrindiau ac yn mwynhau'r cwmni a sgyrsiau gyda’u cydbreswylwyr a'r staff. Mae'r staff gofal yn sylwgar ac yn darparu cymorth mewn modd parchus, ac mae'r bobl yn canmol y gofal a ddarperir iddynt. Roedd yr adborth a gawsom yn cynnwys: *“staff yn dda”, “staff yn dod i helpu yn handi”, “staff yn glên”.*

Gall y bobl ddewis sut maent yn treulio’u diwrnod. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn dewis eu trefn ddyddiol eu hunain o ran pryd y maent yn codi, sut maent yn treulio’u hamser a ble maent yn gwneud hynny, a phryd y maent yn mynd i'w gwelyau gyda’r hwyr. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr pan gesglir barn y bobl ynghylch y math o weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt. Gwelsom y bobl yn mwynhau gêm o fingo yn ystod ein hymweliad a dywedodd y bobl wrthym fod hwn yn weithgaredd yr oeddent yn edrych ymlaen ato.

Hyrwyddir llesiant corfforol ac emosiynol. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ymaddasu pan fyddant yn symud i'r cartref, ac maent yn teimlo eu bod yn cael gofal da. Cefnogir iechyd corfforol drwy sicrhau bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodir, sy'n helpu i reoli cyflyrau iechyd y bobl. Ceisir cyngor proffesiynol mewn ymateb i newidiadau yn iechyd corfforol ac emosiynol y bobl, er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth cywir. Darperir deiet maethlon ac amrywiol, cynigir dewis o brydau i'r bobl a chaiff pwysau’r bobl eu monitro hefyd. Mae'r staff yn annog y bobl i gynnal eu hannibyniaeth, sy'n helpu’r bobl i brofi ymdeimlad parhaus o gyflawni.

Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymreig yn cael eu dathlu a’u cydnabod fel rhannau annatod o hunaniaeth y bobl. Arddangosir cerddi Cymraeg wedi’u fframio ar y waliau mewn coridorau, gan gynnwys rhai a ysgrifennwyd gan y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae paentiadau sy'n darlunio ardaloedd lleol a baneri Cymru yn ychwanegu lliw i'r coridorau ac yn ein hatgoffa o'r ardal y mae'r cartref wedi ei leoli ynddi. Mae arwyddion dwyieithog ar gael ym mhob rhan o’r adeilad ac mae’r orsaf radio Gymraeg, Radio Cymru, yn cael ei chwarae yn y prif goridor. Mae’r staff a’r tîm rheoli yn siaradwyr Cymraeg, sy’n golygu y gall y bobl dderbyn eu gofal a’u cymorth yn eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod â phwy i siarad os oedd unrhyw beth nad ydynt yn hapus ag ef. Mae'r tîm rheoli ar gael ac yn hawdd mynd atynt, ac mae'r bobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt pan fyddant yn codi unrhyw faterion. Mae'r staff yn hyderus yn eu dyletswyddau o ran amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth.

Gofal a Chymorth

Mae asesiadau cyn-derbyn a chynlluniau personol ar waith ond nid ydynt bob amser yn cofnodi anghenion gofal a chymorth penodol y bobl yn llawn. Mae cynlluniau personol yn cofnodi'r hyn y gall y bobl ei wneud drostynt eu hunain a defnyddir asesiadau risg i nodi a rheoli risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl. Nid oes digon o fanylion yn y cynlluniau personol ynghylch y cymorth sydd ei angen ar y bobl i wneud tasgau penodol pan fyddant yn dod i mewn i'r gwasanaeth am y tro cyntaf. Mae hyn yn golygu efallai na fydd y staff bob amser yn gallu cael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig am anghenion gofal a chymorth uniongyrchol y bobl, a gallai hynny effeithio ar y gofal a ddarperir. Daw cynlluniau personol y bobl yn fwy manwl ar ôl eu derbyn, ac mae'r darparwr wrthi'n cyflwyno templedi newydd ar gyfer cynlluniau personol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn briodol ac yn brydlon, mewn ymateb i newid yn amgylchiadau'r bobl. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff wedi darparu gofal da pan fuont yn sâl yn ddiweddar a bod sylw meddygol wedi'i drefnu'n brydlon; *"mae'r gofal yn dda pan ydych chi ei angen" .* Mae'r staff yn eirioli ar ran y bobl er mwyn sicrhau bod asesiadau a thriniaeth broffesiynol yn cael eu darparu'n brydlon. Mae cofnodion yn dangos pryd yr ymgynghorir â gweithiwr proffesiynol, a chanlyniad y cyswllt hwn. Darperir amrywiaeth o brydau iach, a chaiff pwysau'r bobl eu monitro. Mae'r bobl yn canmol y bwyd a ddarperir: *"digonedd o ddewis"* a dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn falch ei fod wedi magu pwysau ers symud i'r cartref.

Mae'r bobl yn elwa ar hylendid da a rheolaeth dda ar heintiau. Gwiriodd aelod o staff ein bod wedi gwneud prawf COVID-19 cyn i ni fynd i mewn i'r adeilad ac mae gwiriadau ar waith ar gyfer pob ymwelydd â'r gwasanaeth. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol i amddiffyn y bobl, a nhw eu hunain, rhag y feirws cyn belled ag y bo'n bosibl. Mae trefniadau ar waith i alluogi ffrindiau a pherthnasau i ymweld â'r gwasanaeth yn ddiogel ac mae cynllun wrth gefn ar waith os ceir achosion COVID-19. Mae'r rheolwyr yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel.

Mae trefniadau diogelu ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant diogelu ac maent yn hyderus o ran eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn y bobl rhag niwed. Mae polisi diogelu ar waith ac mae materion diogelu yn cael eu hadrodd i'r awdurdod lleol mewn modd priodol.

Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd cyfforddus, sy'n hybu ymdeimlad o lesiant ymhlith y bobl. Mae'r cartref wedi'i rannu'n unedau llai, sy'n helpu i gynnal naws gartrefol. Mae dewis o lolfeydd ar gael ac ystafell wydr fawr sy'n agor allan i ardd hygyrch. Darperir gwelyau blodau uchel yn yr ardd, y gall y bobl eu defnyddio i blannu blodau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus gyda'u hystafelloedd eu hunain, a'u bod yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn cael gwneud i'w hystafell deimlo fel eu cartref. Mae ystafelloedd y bobl yn cynnwys eitemau personol eu hunain o'u cartref, fel ffotograffau a dodrefn meddal.

Mae gan bob uned unigol ei chegin fach ei hun, sy'n annog y bobl i gynnal rhywfaint o'u hannibyniaeth mewn perthynas â pharatoi eu diodydd poeth eu hunain, os ydynt yn dewis gwneud hynny, neu baratoi byrbryd iddynt eu hunain. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi gallu cerdded yn annibynnol o amgylch y cartref, gyda chymorth eu ffrâm gerdded, oherwydd bod pob llawr o'r adeilad yn hygyrch.

Yn gyffredinol, mae safon gwaith cynnal a chadw'r adeilad yn dda. Mae un uned wedi'i hadnewyddu'n llwyr yn ddiweddar ac mae hyn yn creu amgylchedd ffres, golau a modern iawn. Mae rhannau eraill o'r cartref yn dangos ôl traul, megis y rheilen i'r llaw a ddarperir yn y coridorau, sy'n plicio mewn mannau ac angen ei ail-baentio. Dywedodd y dirprwy reolwr wrthym ei fod yn ymwybodol o hyn a'i fod yn gobeithio câi hyn sylw cyn bo hir.

Mae risgiau iechyd a diogelwch yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol. Mae gan y gegin y sgôr hylendid bwyd uchaf posibl o bump (da iawn) yn dilyn arolygiad diweddaraf yr awdurdod lleol. Mae trefniadau ar waith ar gyfer storio a pharatoi bwyd yn ddiogel. Mae stociau da o fwyd wedi'i frandio ar gael (ffres ac wedi'i rewi) ac maent yn cael eu harchebu'n rheolaidd er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o fwyd maethlon. Mae trefniadau ar waith i brofi'r larwm tân yn rheolaidd ac mae cynlluniau personol ar waith ar gyfer gadael mewn argyfwng. Mae'r system larwm tân a'r system drydanol yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac, yn gyffredinol, mae gwiriadau addas yn cael eu cwblhau cyn y cyflogir staff newydd i weithio yn y gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Darperir hyfforddiant priodol sy'n galluogi'r staff gofal i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol ac yn ddiogel. Cwblhaodd rhai aelodau o staff eu hyfforddiant gorfodol sawl blwyddyn yn ôl, gan gynnwys cymorth cyntaf, felly mae'n bryd i'r staff fynychu cwrs gloywi. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr yn rheolaidd ac mae cofnodion y cyfarfodydd ar gael i'r bobl nad oeddent yn gallu mynychu'r cyfarfod. Mae hyn yn rhoi cyfle rheolaidd i'r bobl rannu eu barn ynghylch y gwasanaeth ac i wneud awgrymiadau ynghylch newidiadau yr hoffent eu gweld. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gweld y tîm rheoli yn rheolaidd, a'u bod yn teimlo y gallent godi unrhyw fater gyda nhw, os oedd angen. Mae ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol â'r gwasanaeth wedi ailddechrau'n ddiweddar, sy'n gwella goruchwyliaeth ar lefel y darparwr o ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Darperir digon o staff gofal i sicrhau bod y bobl yn derbyn gofal a chymorth ar yr amser cywir. Dywedodd y bobl wrthym fod digon o staff yn gyffredinol, ond eu bod yn ymwybodol bod COVID-19 wedi effeithio ar lefelau staffio ar adegau; *"gallu gweld bod y staff o dan straen".* Bydd y rheolwr a'r dirprwy reolwr yn camu i mewn fel gweithwyr gofal, ac yn darparu gofal a chymorth i'r bobl yn ôl yr angen. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi gwerthfawrogi'r dull rhagweithiol hwn pan fo cyfyngiadau COVID-19 wedi effeithio ar lefelau staffio. Mae hyn wedi cefnogi'r staff i sicrhau parhad yn y gofal a chymorth i'r bobl yn ystod y cyfnod hwn. Darperir staff cegin a staff cadw tŷ, sy'n galluogi'r staff gofal i ganolbwyntio eu hamser ar ddarparu gofal a chymorth i'r bobl.

Mae gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch y gwasanaeth a ddarperir ar gael, ond nid yw'r holl wybodaeth ofynnol wedi'i chynnwys. Mae dogfen y datganiad o ddiben yn unol â'r gwasanaeth a ddarperir. Nid yw'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau, er mwyn galluogi'r bobl i gael dealltwriaeth glir o'r gwasanaethau a ddarperir. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
15	Pan gânt eu derbyn i'r gwasanaeth, nid yw cynlluniau personol y bobl bob amser yn cofnodi'n glir y gofal a'r	Newydd

	cymorth sydd eu hangen arnynt mewn perthynas â'u gofal personol.	
19	Nid yw'r Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.	Newydd
36	Nid yw’r staff wedi derbyn hyfforddiant gloywi gorfodol.	Newydd

Dyddiad cyhoeddi 11/07/2022